PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

85c | Rhif 474 | Rhagfyr 2024

**Geni Gefeilliaid**



t.14

**Cwis Nadolig 2024**



t.9

**Marchnad Aberystwyth**



t.6

# Gŵyl Cerdd Dant 2025



**Y rhai gymerodd ran yn y cyngerdd cyhoeddi ar 23 Tachwedd.**

Nos Sadwrn 23 Tachwedd cynhaliwyd cyngerdd yn Eglwys San Mihangel, Aberystwyth i gyhoeddi y byddai yr Ŵyl ymlaen ymhen blwyddyn. Yn dilyn eitemau gan Ddawnswyr Seithenyn, Ensemble Telyn Gwasanaeth Cerdd Ceredigion, Linda Griffiths a datganiad o'r cywydd croeso gan Barti'r Greal, perfformiwyd Cantata'r Geni - gosodiad Bethan Bryn.

Gosod hanes y geni ar gerdd dant oedd y bwriad yn ôl Bethan welai debygrwydd rhwng oratorio a'r grefft. Defnyddiodd destun Beibl William Morgan heb newid dim. Y gamp fwyaf oedd cael ceinciau addas. Roedd am ddefnyddio carolau Cymreig lle oedd modd a defnyddiodd dair carol gweddol adnabyddus .

Ffurfiwyd côr o 55 drwy wahodd Parti'r Greal a Merched Soar i uno a gwahodd cantorion gwrywaidd allai ddarllen cerddoriaeth -gan nad oedd amser wrth gefn i ddysgu.

Y gobaith yw y bydd gwedd newydd ar hen hen stori.

Recordiwyd y gwaith a gobeithir ei ddarlledu ar y Sul olaf yn Rhagfyr – y Sul ar ol y Nadolig am 12.00.

Yn dilyn y cyhoeddi cyhoeddwyd y *Rhestr testunau* sydd ar gael am ddim o siop Inc, Llyfrgell Ceredigion a gan yr ysgrifennydd – Helen Medi. Bydd ar gael ar wefan Cymdeithas Cerdd Dant Cymru yn fuan a'r cystadlaethau llenyddol ar wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru.

Difyr yw gweld Vernon Jones, Bow Street yn un o'r chwe Llywydd Anrhydeddus – un gefnogodd yr Ŵyl ar hyd y blynyddoedd ac mae hyn yn tynnu ein sylw fod y pwyllgor gwaith wedi ail gyflwyno Adran Barddoniaeth i'r testunau.

Ymhlith y beirniaid gwelir enwau Caryl Ebenezer (Alawon Gwerin) a Mared Emyr (Telyn). Mae cryn edrych ymlaen i glywed y darn comisiwn ar gyfer y Côr – (teyrnged i) Merêd a Phyllis gan Eurig Salisbury.

Dyma y chweched tro i'r Ŵyl ymweld â Aberystwyth – yn ogystal ag ymweliadau 1954, 1962, 1983, 1997, a 2023 bu hefyd ym Mhafiliwn Ponthydfendigaid yn 2007 a 2013.



# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, 38 Heol Alun, Waunfawr, Aberystwyth, SY23 3BB
Ebost: ionadavies752@btinternet.
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 07910 720422
hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@icloud.com 07966 510195
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296

CYMRAEG Ariennir y Tincer yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.


# dyddiadur

**Rhifyn Ionawr. Dyddiad cau Ionawr 3; Dyddiad cyhoeddi Ionawr 15.**

**RHAGFYR**

19 Nos Iau. Plygain traddodiadol dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn yn Eglwys St Ioan, Penrhyn-coch am 7.00

20 Nos Wener. 'Dathlu'r Nadolig' yng nghwmni Anwen Pierce ac Angharad Fychan. Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch

20 Dydd Gwener Gwasanaeth Nadolig Ysgol Penweddig ym Methel, Stryd y Popty. Bl 7 8 a 11 am 10.00; Bl 9 10 a'r 6ed am 11.00'

21 Dydd Sadwrn. Te prynhawn gyda Sion Corn yn Neuadd y Penrhyn o 2.00-4.00 £10 y plentyn. Rhaid bwcio ymlaen llaw – Kirsty 07811367334 ; Cathy 07949746907

**2025**
**IONAWR**

16 Nos Iau. Rheinallt Llwyd – Cipolwg ar yrfa Islwyn Ffowc Elis Cymdeithas y Penrhyn yn Horeb am 7.30


17 Nos Wener. 'Amser Drwg fel Heddiw' – Iwan Meical Jones yn trafod ei waith gyda Gruffydd Aled Williams Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch

# Cystadleuaeth i i blant blynyddoedd 5 a 6

Cystadleuaeth y Tincer i blant blynyddoedd 5 a 6 eleni yw

**Adolygiad o raglen deledu neu radio, cyngerdd neu Sioe Nadolig. Y beirniad fydd Ffion Bowen.**
**Bydd tair gwobr - tocynnau llyfr £15, £10 a £5**

Beth am fynd ati ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 a gyrru eich gwaith gydag enw ac enw ysgol neu gyfeiriad cartref i'r Golygydd d/o Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3HE neu i Ytincer@gmail.com cyn **dydd Llun 6 IONAWR 2025**.



# Llythyr

Annwyl Olygydd
Tybed oes rhai o'ch darllenwyr yn fyfyrwyr neu'n adnabod myfyrwyr hoffai ddysgu mwy am y sector Dysgu Cymraeg?
Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg eisiau denu mwy o bobl ifanc i weithio fel tiwtoriaid ac yn cynnig ysgoloriaeth iddyn nhw fynychu cwrs 'Tiwtoriaid Yfory' yn ystod haf 2025.

Bydd y cwrs yn cael ei gynnal rhwng 7 – 18 Gorffennaf yng Nghaerdydd a bydd yn cynnwys gweithdai gyda thiwtoriaid profiadol, a chyfleoedd i arsylwi dosbarthiadau Cwrs Haf Dysgu Cymraeg Caerdydd.

Mae tiwtora hefyd wrth gwrs yn opsiwn gwych i fyfyrwyr sy'n chwilio am ychydig o arian pan fo'r esgid yn gwasgu.

Gall myfyrwyr sy'n astudio unrhyw bwnc yng Nghymru neu tu hwnt wneud cais –'dyn ni'n chwilio am bobl all ysbrydoli eraill i ddysgu a siarad Cymraeg, gyda sgiliau cadarn yn y Gymraeg eu hunain.

Mae na fwy o wybodaeth ar wefan y Ganolfan - dysgucymraeg.cymru.

Diolch yn fawr a chofion gorau,
**Helen Prosser**
Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

**Hoffai Ceris Gruffudd ddymuno Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i gyfeillion a darllenwyr y Tincer. Yn ôl f'arfer ni fyddaf yn gyrru cardiau Nadolig ond yn cyfrannu i elusen – eleni HAHAV**



**Dymuna Mair Evans, Glan Ceulan, Penrhyn-coch Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i'w chyfeillion.**

## 30 mlynedd yn ôl



Llongyfarchiadau i Gwyn Royle, 4 Glanceulan, ar ennill 10 o gwpanau a 140 140 o wobrau mewn sioeau yn ystod y flwyddyn. Gwyn yw garddwr Radio Ceredigion... Llun: Hugh Jones
(O'r *Tincer* Rhagfyr 1994)

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Tachwedd 2024
£25 (Rhif 135) Huw C Jones, Nant y Mynydd, Llandre
£15 (Rhif 234) Nerys Hughes, Swyn y Fro, 26 Cae'r Wylan, Cefnllan
£10 (Rhif 278) Susan Williams, 38 Heol Aberwennol, y Borth

Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch gwybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar e-bost bethanbebb162@gmail.com
Gair i atgoffa fod y flwyddyn newydd o aelodaeth yn dechrau ar y cyntaf o Ionawr.

## Cronfa Eleri

**Blwyddyn 2024 – dros £26,500 i'w rannu**

Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n gydnaws ag amcanion y Gronfa

Ffurflen gais a manylion ar gael o: **cronfaeleri.cymru**
Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri
Garreg Wen
Tal-y-bont
Ceredigion SY24 5HJ
**Tel:** 01970 832551 **e-bost**: ymholiadau@cronfaeleri.com

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 11eg 2025**

**Amcanion Cronfa Eleri**
*'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'*

## Rhagfyr yn Llanfihangel Genau'r Glyn



Ar frigyn ac ar fondo,
Mae mil o sêr yn uno
I danio'r hud sy'n dod i'n rhan
Drwy Lanfihangel heno.
A gerddi gwynion Llandre
Sy'n geirw am y gore,
Aeth gofid dall y gaeaf du
I'w blu. Mae'r Glyn yn ole.

**Huw Meirion Edwards**

## CYFEILLION Y TINCER

**FFURFLEN GAIS SWYDDOGOL I YMUNO Â'R CLWB**

ENW LLAWN ____________________

CYFEIRIAD ____________________

____________________

CÔD POST ____________________

RHIF FFÔN ____________________

E-BOST ____________________

**TALIADAU**
Ticiwch y bocs priodol os gwelwch yn dda

☐ Arian neu siec ☐ Archeb banc


**DATGANIAD**
Dymunaf ymaelodi â Chlwb Cyfeillion Y Tincer a deallaf y bydd gofyn i mi dalu £10 am flwyddyn o Aelodaeth sydd yn cynnwys dau rif. Tynnir y rhifau yn fisol am 10 mis.
Cyhoeddir y rhifau buddugol yn Y Tincer.
**Mae'r flwyddyn yn rhedeg o Ionawr 1af i Ragfyr 31**

Llofnod ____________________

Dyddiad ____________________

**Dychwelir y ffurflen i bethanbebb162@gmail.com neu Bethan Bebb Penpistyll, Cwmbrwyno, Aberystwyth. SY23 3PG**

## RHODDION



Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod.
Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.
**Carys W Davies, Dolau £50**

## Penrhyn-coch

**Oedfaon Horeb**

*Rhagfyr*

**22** 2.30 Oedfa – Bethel, Aberystwyth
**25** 9.00 Oedfa gymun Nadolig Judith Morris
**29** Oedfa diwedd blwyddyn I'w threfnu

*Ionawr*

**5** 2.30 Peter Thomas Oedfa gymun
**12** 10.30 Peter Thomas
**19** 10.30 Beti Griffiths
**26** 2.30 Wyn Morris ym Methel (Ab)

**Brysiwch wella**

Bu'n meddyliau gyda Dai Jones (Dai Corris) a'r teulu yn dilyn damwain ddiweddar. Da deall ei fod yn gwella ac yn cael dod yn nes gartref y dyddiau nesaf. Cofion cynnes atynt

**Cymdeithas y Penrhyn**

Gostyngodd y tymheredd ar noson y 20 fed o Dachwedd wrth i aelodau o Gymdeithas y Penrhyn gwrdd yng Nghapel Horeb am ail gyfarfod y tymor. Cyflwynwyd yr Athro Gareth Griffith o Adran Gwyddorau Bywyd, Prifysgol Aberystwyth a esboniodd fod teitl ei sgwrs "Capiau Cwyr Campus Cymru" yn cyfeirio at grŵp o ffyngau.

Clywsom fod naturiaethwyr o Gymru gan gynnwys Thomas Pennant a Huw Davies, rheithor o Sir Fôn, wedi disgrifio ffyngau 200 mlynedd yn ôl. Ystyriwyd pryd hynny bod ffyngau'n rhan o deyrnas y planhigion ond esboniodd Gareth fod DNA yn dangos eu bod yn nes at anifeiliaid. Dysgon ni mai dim ond darn bach o'r organeb yw'r "cap". O dan y ddaear mae rhwydwaith helaeth o edafedd, y "myseliwm".

Esboniodd Gareth fod capiau cwyr yn ffynnu lle mae'r pridd heb ei aredig na'i wrteithio dros gyfnod hir a lle mae'r borfa'n gymharol fyr. Felly mae glastiroedd hynafol wedi'u pori'n ysgafn yn gynefin delfrydol. Gwelir capiau cwyr hefyd mewn hen fynwentydd, lle mae pobl yn torri gwair ond nid oes defnydd o wrtaith.

Ers cyflwyno amaethyddiaeth ddwys mae capiau cwyr wedi prinhau oherwydd "gwella" canran uchel o lastiroedd Ewrop. Mae gorllewin Cymru, lle mae glastiroedd hynafol wedi goroesi, bellach yn bwysig ar gyfer cadwraeth. Mae coetir yn anaddas i gapiau cwyr ac felly mae cynlluniau i blannu coed ar ffriddoedd yn fygythiad i nifer o safleoedd pwysig. Mae gwerthu mynwentydd yn peryglu cynefin pwysig arall.

Soniodd Gareth am waith ymchwil cyfoes gan gynnwys trawsblannu tyweirch lle mae ffyrdd newydd yn mynd drwy gynefin ffyngau a defnyddio eDNA (sef DNA o'r amgylchedd) i ddangos pa rywogaethau sy'n bresennol, hyd yn oed pan nad oes ffyngau i'w gweld uwchben y ddaear. Gorffennodd drwy dawelu ein meddwl nad yw casglu ffyngau'n niweidiol ac yn wir y gallai eu casglu helpu i ledaenu'r sborau.

Manteisiodd aelodau ar y cyfle i ofyn cwestiynau wrth fwynhau paned a baratowyd gan Elenid Thomas a Wendy Reynolds.




**Rhaglen Cymanfaoedd Canu**

Cyhoeddwyd rhaglen 2024/25 ac mae copïau ar gael gan Ysgrifennydd Horeb – Ceris Gruffudd am £3 y copi.

**Cydymdeimlad**

Trist oedd clywed am farwolaeth Howell Evans Y Ddôl Fach ar 12 Tachwedd yn 85 oed. Cydymdeimlwn â Heather a Jamie, Y Ddôl Fach, ac Yvonne a Jack, Dana, Deian ac Osian, Nant Seilo. Cynhaliwyd yr angladd yn Llandysul ar 23 Tachwedd.

**Ar ymweliad**

Roedd yn braf gweld y cyfaill Dafydd Sheppard ar wyliau yn yr ardal yn ddiweddar. Symudodd Elen a Dafydd Sheppard o Benrhyn-coch i ardal Casnewydd rai blynyddoedd yn ôl a bu Elen farw rai blynyddoedd wedyn. Da gweld Dafydd yn edrych cystal ac yn adnewyddu cyfeillgarwch yn yr ardal. Mae yn tanysgrifio i'r Tincer.



**Llongyfarchiadau i Aron Bishop, blwyddyn 9, Ysgol Penweddig a fu'n rhan o wersyll ymarfer carfan pêl droed Gogledd Cymru o dan 14 ddoe. Cafodd gyfle hefyd i chwarae yn erbyn academi clwb pêl droed Stoke. Profiad arbennig.**

### Canlyniadau Pêl-Droed Penrhyn-Coch

**TIM CYNTAF PENRHYN-COCH**

Cynghrair
*Tachwedd*
30 Treffynnon 2 Penrhyn-coch 1

Cwpan Canolbarth Cymru
*Rhagfyr*
4 Cegidfa 4 Penrhyn-coch 2

**EILYDDION**

Cwpan Emrys Morgan
Tachwedd
16 Eilyddion Penrhyn-coch 2 Ffostrasol 3

Cwpan Canolbarth Cymru
30 - Eilyddion Penrhyn-coch 2 Turfs Tregaron 5

### Gŵyl Coed Nadolig

**Bydd Eglwys St Ioan ar agor 2-5 Sadwrn 14 a 21 a Sul 15 a 22 a 3.30-5 dydd Iau 19 Rhagfyr.**

## Dolau

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad gyda'r Athro Gruffydd Aled ac Eimear Williams, Bronafon, ar farwolaeth brawd Eimear yn Iwerddon.

SIOP
**SGIDIAU GWDIHW**
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
Shan ac Alys Jones
GWASANAETH
**GOFAL TRAED**
Ceiropodyddion /podiatryddion graddedig ac wedi cofrestru efo'r
MRCPod

## Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2025

### 4-5 Ebrill, 2025

**Testunau llenyddol**

Dyma destunau llên yr Eisteddfod; y beirniad yw Garry Owen, yr Hendy. Dylai cyfansoddiadau gael eu gyrru trwy'r post i'r Ysgrifennydd Ceris Gruffudd, Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3HE neu e-bost i Ceris.Gruffudd@gmail.com cyn 17 Mawrth 2025.

1. Cadair: Cerdd gaeth neu rydd heb fod dros 50 llinell ar y testun Gorwel. Cadair fach a £50.00 Y gadair a'r wobr ariannol yn rhoddedig gan y teulu er cof am Tegwyn Lewis, Rhos-goch, Capel Madog
2. Englyn: Ffwrnais. £10.00
3. Geiriau addas ar gyfer cân werin gyfoes. £10.00
4. Cerdd addas ar gyfer plant 12-16 oed £10.00
5. Limrig: 'Rwy am fynd am drip i'r Eisteddfod' £10.00
6. Brawddeg: Cantref. £10.00
7. Stori addas i blant cynradd "Fy arwr" £10.00
8. Erthygl addas ar gyfer papur bro. £10.00
9. Adolygiad: Rhaglen deledu. Dim mwy na 500 o eiriau. £10.00
10. Tlws yr ifanc i rai dan 21 oed: Stori fer. Tlws a £20.00 Y gwobrau yn rhoddedig gan Aaron ac Ashley Stephens

## CYLCH CINIO



Yr awdures Bethan Gwanas yn dathlu'r Nadolig gyda rhai o aelodau Cylch Cinio Aberystwyth Geoff Davies, Lewis Owen, Yr Athro Geraint Vaughan Cadeirydd) a Djcky Wyn Davies (Trysorydd)

Un o enethod Meirionydd oedd gwestai Cylch Cinio Aberystwyth yn ein cinio Nadolig eleni.

Roedd yn braf iawn estyn croeso unwaith eto i Bethan Gwanas a chafwyd noson hwyliog iawn yn ei chwmni. Bu Bethan yn fyfyrwraig ym Mhrifysgol Aberystwyth lle graddiodd mewn Frangeg ac wedi cyfnod fel athrawes yn y gogledd bu'n ymchwilydd ar raglen Stondin Sulwyn BBC Radio Cymru ac wedyn yn Ddirprwy Bennaeth Gwersyll yr Urdd Glanllyn ger Y Bala.

Dyw Gwanas ddim yn enw dieithr i unrhyw un sydd yn ymwneud a'r diwylliant Cymreig a hynny yn bennaf mewn cyd-destun cerddorol. Mae tad Bethan, Tom Gwanas a'i hewythr yn gantotion o fri ac ymlith ser amlycaf a mwyaf poblogaidd Cyngherddau a Nosweithiau Llawen dros Gymru.

Ond, torri cwys ei hun wnaeth Bethan a hynny ym myd llenyddiaeth. Y cam cyntaf oedd profi'r tir a chyhodeddi nofel 'Amdani' ar gyfer pobol ifanc yn seliedig ar dim rygbi merched. Cafodd ymateb gwych ac fe addaswyd y nofel wedyn yn gyfres deledu ar S4C.

Erbyn hyn mae Bethan yn un o awduron amlycaf a mwyaf cynhyrchiol Cymru a'i henw bellach ar 50 o nofelau yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer plant, pobol ifanc, oedolion a dysgwyr.

Mae ei llyfrau wedi eu hysgrifennu mewn arddull gyfoes, hawdd eu darllen a'u cynnwys yn aml dipyn yn fwy mentrus na'r hyn a gaed mewn llenyddiaeth Gymraeg dros y blynyddoedd.

Derbyniodd gydnabyddiaeth a sawl gwobr dros y blynyddiedd gan gynnwys ennill Gwobr Tir Nan Nog ddwy waith. Cafodd glod arbennig iawn eleni pan enillodd dlws Mary Vaughan Jones am ei chyfraniad nodedig i lenyddiaeth plant a phobl ifanc.

Wrth ddiolch iddi dywedodd Geoff Davies bod Bethan yn un o awduron blaengar ein cyfnod gan nodi i'w llyfr cyntaf roi sylw i ferched yn chwarae rygbi a hynny30 mlynedd cyn i Undeb Rygbi Cymru gydnabod bod merched yn abl i chwarae'r gem.

Penderfynodd yr aelodau gefnogi apel yr Urdd 'Yr Urdd i Bawb' er mwyn galluogi plant a phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig i fwynhau wythnos yn un o wersylloedd y mudiad. Ymgais yw'r apel i geisio cyfrannu at leddfu tlodi plant sy'n un o broblemau mawr y Gymru gyfoes.

Nod y mudiad yw galluogi 1000 o aelodau i fod yn rhan o'r cynllun ar gost o £220 yr un. Bydd Cylch Cinio Aberystwyth nawr yn cyfrannu £440. er mwyn galluogi dau berson ifanc o ddalgylch y Cylch Cinio i fod yn rhan o'r cynllun.

Cafwyd y newydd da bod y Cylch wedi derbyn enwebiad Lewis Owen, Trawsgoed ar gyfer y swydd o Is-Gadeirydd ac ef fydd yn cymryd y Gadair o fis Medi 2025.

Cydymdeimlwyd a Gwynfryn ac Eryl Evans a'r teulu ar eu profedigaethh lem o golli mab yng nghyfraith, Prys yn 58 oed.

Enillwyd y raffl gan Malcolm Davies, Waunfawr.

Bydd ein cyfarfod nesaf eto yn y Richmond ym mis Ionawr 2025.

Dymunodd y Cadeirydd Yr Athro Geraint Vaughan Nadolig Llawen a Blwyddyn Newyydd Dda i bawb.


D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau

Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ

Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com

Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006


Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem

Gwefan Cymuned Trefeurig

trefeurig.cymru

- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer

Gwefan Trefeurig Website  Trefeurig8



# Madog, Dewi / Cefn-llwyd

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Jim a Gwenda Wallace, Troed y rhiw, ar enedigaeth eu hŵyr cyntaf ar 19 Tachwedd – Elis Glyn, mab i Elin a Rhodri Wallace Jones, Caernarfon. Pob dymuniad da i'r teulu.

**Tudor Evans**
Dymuna Ray a'r teulu ddiolch yn ddifuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth.

Ymddiheuriad am gael yr enw anghywir yn rhifyn Tachwedd. Yr enw cywir yw Tudor Evans.

**Marchnad Aberystwyth**
**15/12/2024**
Mynediad 2277 gyda gwerthiant llwyr.

Gwelodd ail drefnu yr arwerthiant ar ôl storm Darragh, ac arwerthiant olaf y flwyddyn fynediad arbennig a gwerthiant anhygoel ar draws y bwrdd.

Dyma enillwyr ein gwerthiant Nadolig:
Lloc o ŵyn wedi eu magu'n groes (5 neu fwy):
1af Brodyr Hamer, Glennydd, Y Groes. £147 ph.
2il Evans, Brynawel, Cnwc-coch. £143 ph
3rd Jones, Caerberllan, Llanfihangel-y-Pennant. £129ph.
Lloc o ŵyn mynydd (5 neu fwy)
1af Jones, Nantygarth Uchaf, Bethania. £148yp
2il Jones, Cefnbangor, Goginan. £135yp
3ydd James, Penyberth, Penrhyn-coch. £131yp
Lloc o famogiaid (5 neu mwy)
1af Jones & Sons, Tryal, Llanrhystud. £137yp.
1af Prifysgol Aberystwyth £137yp.
2ilJones, Maesbeidiog, Llangwyryfon. £128yp.
3ydd Prifysgol Aberystwyth £124yp
Hyrddod.
1af Jones, Brynceiro, Ponterwyd.£200
1af Evans, Tycefn Ponterwyd.£200
2il Davies, Brenan, Y Groes. £192
3ydd Davies & Evans, Ynys Farm. £188
A'r prisiau uchaf (lle yn wahanol) a'r ar gyfartaledd fel a ganlyn:



Ŵyn stôr (1661). Mwy £149 i Miss Lilly-Ann Dykes. Cyf £85.30.
Mamogiaid (550) Mwy £194 i Lloyd, Facwn, Llangwyryfon. Cyf £87.54.
Hyrddod (63) Cyf £146.

Diolch yn fawr i'r holl brynwyr a gwerthwyr am eich cefnogaeth dros y flwyddyn, a diolch yn fawr i'r staff am eu holl waith caled.
Bydd y mart nesaf ar y 4ydd Ionawr.

**Gwobrwyo**
Mae Prifysgol Aberystwyth wedi anrhydeddu unigolion am eu cyfraniad i'r Gymraeg.

Mewn seremoni wobrwyo ddydd Mercher 4 Rhagfyr, cyhoeddwyd enillwyr Gwobrau Hybu'r Gymraeg Prifysgol Aberystwyth 2024 wedi iddynt gael eu henwebu gan staff a myfyrwyr y Brifysgol.

Yn ddysgwyr ac yn siaradwyr iaith gyntaf, yn fyfyrwyr ac yn staff, gwobrwywyd yr enillwyr ar gyfer y gwobrau canlynol:

Roedd dau enillydd yng nghategori Hyrwyddo'r Gymraeg yn y Gweithle – Dr Hanna Binks a Dr Lloyd Roderick

**Dr Hanna Binks (Hyrwyddo'r Gymraeg yn y Gweithle)**
Yn enedigol o Aberystwyth, dychwelodd Hanna i'r ardal yn 2017 yn dilyn cael ei phenodi yn Ddarlithydd Cyswllt yn Adran Seicoleg, Prifysgol Aberystwyth. Penodwyd yn ddarlithydd gyda chyfrifoldeb dros y Gymraeg yn yr Adran yn 2019 ac mae wedi gweithio yn ddiflino i ddatblygu cyfleoedd astudio a hybu defnydd o'r Gymraeg o fewn yr Adran. Mae Hanna yn angerddol dros y Gymraeg ac yn teimlo fod Seicoleg yn faes pwysig yn gymdeithasol. Mae hi'n awyddus i ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach gan gynnwys prosiectau a chynlluniau ymchwil trwy gyfrwng y Gymraeg.




## Cyngor Cymuned **Tirymynach**

*Cyfarfod 31 Hydref:*
Llongyfarchwyd y Cynghorydd Gareth Lewis ar gael ei ethol, a'i groesawu i'w gyfarfod cyntaf.
Trafodwyd:
· praesept 2025.
· problem baw cŵn ym mharc Bryncastell.
· hyfforddiant i'r cynghorwyr – bod dau wedi mynychu sesiwn ar-lein.
· cyfrifon Tirymynach – mae'r gwaith gydag Archwilio Cymru yn parhau.
· y peiriant di-ffib – mae wedi'i osod ger arhosfan bws Llangorwen.
Mae'r cyngor yn croesawu ceisiadau am grantiau am y cyfnod 2025/26. Rhaid cynnwys mantolen gyda'r cais, a'r **dyddiad cau** ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw **19 Ion 2025**.

*Cyfarfod 5 Rhagfyr:*
· Croesawyd dau newydd i'r cyfarfod.
· Goleuo coeden Nadolig y ward – cafwyd digwyddiad llwyddiannus ar 3 Rhagfyr. Diolch i bawb fu'n helpu, yn arbennig yr ysgol a phwyllgor y neuadd.
· Bydd plac yn cael ei osod yng ngorsaf drên Bow Street er cof am y cyn-gynghorydd, Paul Hinge.
· Does dim ffigwr pendant wedi dod o ran praesept 2025.
· Awgrymwyd yr enw 'Rhosceiro' ar y stad newydd o dai ger capel y Garn.
Cyfarfod nesaf: 29 Ionawr. 6.30. Neuadd Rhydypennau. Plis nodwch fod croeso mawr i unrhyw un sy'n byw yn y ward i ymuno – mae angen gwaed newydd arnom! Cysylltwch â tirmynach@gmail.com
Croesewir ceisiadau am grantiau am y cyfnod 2025/26. Rhaid cynnwys mantolen gyda'r cais, a'r **dyddiad cau** ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw **19 Ion 2025**.

BRIDGE HOUSE CLEARANCE
Gardd neu Sied – Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim
f 07792457816 / 01974 261758

## Aber-ffrwd aChwmrheidol

Llongyfarchiadau i aelodau Clwb Fferm Ifanc Trisant ar eu llwyddiant yn y diwrnod Maes a gynhaliwyd yn ddiweddar. Aeth nifer ymlaen i gystadlu yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd gan brofi dipyn o lwyddiant yno hefyd.

Mae y stormydd diweddaraf wedi achosi dipyn o lanast yn yr ardal. Bu trigolion pen uchaf y Cwm heb drydan am nifer o ddiwrnodau. Profiad annymunol.

## Goginan

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn â Clive Meachen, Cefnllayn a'i feibion Sean a Tom ar farwolaeth Mary Meachem canol mis Tachwedd.

**Croeso**

Croesawn Mike a Dawn McKenna i Haulfryn, Cwmbrwyno. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith.

**Cinio Nadolig**

Cafodd henoed yr ardal groeso cynnes yn Nhafarn Y Druid i ddathlu y Nadolig. Cafwyd pryd blasus iawn wedi cael ei paratoi gan Nigel, Jordan a'r criw, Cymdeithas Gymunedol Goginan oedd yn trefnu yr achlysur ac i'r rhai oedd yn methu mynychu'r Druid roedd aelodau o'r gymdeithas yn dosbarthu y bwyd i'w cartrefi. Diolch o galon am y gwirfoddolwyr am wneud yn sicr fod pawb yn cael y pryd tymhorol ardderchog.



**Hwyr neu Cynnar**

Dyma lun a dynnwyd ar yr wythfed ar hugain o Dachwedd yn ardal Cwmbrwyno.



GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
07813 338647

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111
james.memorials@btconnect.com

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

Arbenigwr glanhau popty a charped
Phil 07534 213229
cwtch.mw@outlook.com
PRO-TEK CLEANING SOLUTIONS

Cyfarwyddwyr Angladdau
C. T. Evans
Perchnogion : Gwyn & Janet Evans
Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY23 5BS
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn.
Wedi ei arwain yn Bersonol gyda Urddas.
Capel Gorffwys Preifat,Gwasanaeth Ddydd a Nôs.
Ffôn 01970 820013
ebost : gwyn@ ct-evans.com

R.J Edwards a'i Fab
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman @yahoo.com

# Capel Bangor / Pen-llwyn

**Suliau Pen-llwyn**
*Rhagfyr*
8 Dr. John Tudno Williams 2 o'r gloch
15 Parch Judith Morris, 2 o'r gloch y prynhawn
22 Gair a'r Geiriau, Capel y Garn 10 o'r gloch y bore
29 I'w Drefnu

*Ionawr*
5 Trefniant Lleol
12 2.00 Yr Athro John Tudno Williams
19 10.00 Y Parchg Ifan Mason Davies

Dylai'r newyddion hyn fod wedi ymddangos am y mis diwethaf

**Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor**
*Rhagfyr*
22 Nos Sul Gwasanaeth Carolau am 6.00
25 Bore Mercher Dydd Nadolig Gwasanaeth y Cymun Bendigaid am 10.30 yb

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn fel ardal a Mrs. Eirwen Sedgwick, Rheidol House wrth iddi golli chwaer yng nghyfraith yn marwolaeth Mrs. Doreen Sedgwick yn ddiweddar.

**Ysbyty**
Dymunwn wellhad buan i Mrs. Doreen Davies, Glasfryn sydd yn Ysbyty Bron-glais ar hyn o bryd. Hyderwn y byddwch adre yn ein plith gyda hyn fel brenhines ar eich aelwyd unwaith yn rhagor. Hefyd dymunwn wellhad buan i Mr. Tom Hughes James, Penbonpren sydd yn Ysbyty Bron-glais ar hyn o bryd. Yr un neges i chithau, brysiwch adre yn fuan iawn yn teimlo lawer yn well gobeithio.

Hefyd cofiwn am Mrs. Anne Edwards, Hyfrydle sydd yn Ysbyty Bron-glais ar hyn o bryd. Dymunwn wellhad buan iddi a chofion gorau ati hi ac at ei phriod yn ogystal sydd yng Nghartref Cwm Cynfelin yng Nghlarach ar hyn o bryd.

**Dod i Oed**
Llondyfarchiadau i Nel Evans, 2 Ty'n Llan a Megan Lewis, Ystrad ar ddathlu eu penblwyddi yn ddeunaw oed yn ddiweddar. Pob dymuniad da i chi eich dwy ym mha feysydd bynnag y cewch eich hunain ynddynt yn y dyfodol.

**Gofal piau hi bob amser**
Llongyfarchiadau i Owen Evans, Ardwyn ar basio ei brawf gyrru yn ddiweddar, llai o waith i Mam a Dad i deithio o le o le fel tacsi.

**Sioe Gerdd Joseff**
Hyfryd oedd gweld Tomos Jones, Tangeulan yn cymryd rhan yn Sioe Gerdd ardderchog Penweddig y mis diwethaf, mae'n braf rhoi cyfle i ieuenctid fel Tomos i ddisgleirio mewn Sioe o'r safon hon. Dal ati'

**Cyfarchion y Nadolig**
Cyfarchion a dymuniadau da am y Nadolig i ddarllenwyr y Tincer pa le bynnag y maent, hyderwn y cewch eich bendithio yn fawr wrth ddathlu'r Ŵyl gysegredig hon eleni eto.



Merched y wawr Melindwr yn mwynhau orig yng nghwmni Rhiannon Ifans ar ôl cael cino Nadolig yng Ngwesty Hafod Pontarfynach.

**Newid Aelwyd**
Dymuniadau gorau i Miss Delyth Davies, Maencrannog wrth iddi symud o'i chartref ym Mhenllwyn i Waun Fawr, Aberystwyth. Bydd Delyth yn ymuno a'i chwaer Iona sydd wedi ymgartrefu yno ers blwyddyn bellach. Mae'r teulu wedi byw yn Maencrannog ers l955 pan ddaeth eu Tad, y diweddar annwyl Mr. Martin Davies yn brifathro ar Ysgol Gynradd Pen-llwyn. Bu ef, a'i briod hawddgar a'r ddwy ferch yn gaffaeliad mawr i'r capel a'r ardal gyfan ar hyd y blynyddoedd. Diolch nad ydynt yn symud yn bell ac y cawn eu cwmni yma gyda ni am flynyddoedd i ddod. Pob hapusrwydd a dedwyddwch i chi ar y Waun.

**Merched y Wawr Melindwr**
Prynhawn dydd Mawrth 2il o Ragfyr cynhaliwyd ein cinio blynyddol yng Ngwesty Hafod Pontarfynach. Cafwyd croeso cynnes a phryd da o fwyd ar ôl i Heulwen Lewis ddweud gras. Ein gwraig wadd oedd Dr Rhiannon Ifans un sydd yn hoff iawn ac yn arbenigwraig ar ganu Plygain. Cafwyd ei hanes yn mynd o amgylch y wlad yn canu caneuon traddodiadol Nadoligaidd. Teimlai hi mae geiriau sydd yn bwysig, gyda pawb yn canu yn ddigyfeiliant. Ei hoff le oedd Eglwys Llanfihangel-yng-ngwynfa yn Sir Drefaldwyn, ond yn drist iawn mae yr Eglwys wedi cau erbyn hyn ond mae'r gwasanaeth yn awr yn cael ei gynnal yn yr Ysgol. Talwyd y diolchiadau gan Nia Davies.



**Cwblhau ysgoloriaeth**
Justin Bennett, Pen-llwyn, myfyriwr Chweched Dosbarth yn Ysgol Pen-glais yn derbyn ei dystysgrif a'i fathodyn gan Syr Christopher Hunter yn Llundain ar ôl cwblhau yr ysgoloriaeth bythefnos ddyfernir gan y Gynghrair Awyr (Air League) yn Llundain.

# Llandre

Trist oedd clywed am farwolaeth Ann Protheroe – gynt o Ty'n Bedw, yng Nghartref Plas Cwmcynfelyn ar Dachwedd 19. Cynhaliwyd yr angladd ar 12 Rhagfyr yn Amlosgfa Aberystwyth.

Estynnwn ein cydymdeimlad gyda Gwynfryn ac Eryl Evans ar farwolaeth eu mab yng nghyfraith, Prys Dafydd, yng Nghaerdydd ar 23 Tachwedd yn dilyn salwch byr.

**Ennill gwobr**
Llongyfarchiadau mawr i Dylan Huw, Bancyreithin, ar ddod i'r brig yn yr International Awards for Art Criticism 2024. Cafodd y seremoni wobrwyo ei chynnal yn Shanghai ar 9 Rhagfyr. Mae Dylan yn sgwenwr llawrydd, ac yn adolygu arddangosfeydd celf i gylchgronau byd-eang, fel rhan o'i waith.

Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar agor
Llun-Sadwrn
9.00-4.30
Sul: Ar gau
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau
AR GAU O NOSWYL NADOLIG TAN 8 IONAWR



# Cwis Nadolig Y Tincer

**Cyfle eleni eto i gael ychydig o hwyl ar ôl bwyta'r pwdin Nadolig ac ennill gwobr o £15!**
**Eich tasg eleni yw dyfalu pa raglenni a ddangoswyd ar S4C yn ystod 2024, mae'r Tincer bach yn ceisio eu disgrifo.**

**Anfonwch eich atebion i gyrraedd cyn hanner dydd, dydd Llun, Ionawr 6 2025 at: Gareth William Jones, Hafle, Penrhiw, Bow Street, Ceredigion SY24 5BA**
**neu os dymunwch, anfonwch eich deg ateb at gwjones99@aol.com**

Os bydd mwy nag un ateb cywir, yna, fel arfer, rhoir yr enwau yn het y golygydd a'r enw cyntaf i'w dynnu allan fydd yn ennill y £15. Pob lwc gyda'r dyfalu!

1. Yn y rhaglen hon mae gwraig dyn sy'n dda am gicio yn sgwrsio am gwcio.
2. Yn y rhaglen hon mae lleisiau swynol yn rhoi cychwyn ar ddau weithred.
3. Yn y rhaglen hon mae rhai mewn dyffryn deheuol yn cwyno, cweryla a charu.
4. Yn y rhaglen hon mae merch yn gadael harbwr diogel i holi seleb ar ôl iddi nosi.
5. Yn y rhaglen hon gwelir gogs yn troi mewn cylchoedd ger campwaith Telford.
6. Yn y rhaglen hon mae chwarter Pedair yn trafod palu, plannu a phetalau.
7. Mae'r rhaglen hon yn dangos rhai'n ceisio rhoi rhywbeth crwn mewn rhwyd.
8. Yn y rhaglen hon mae pedwar yn crwydro, ciniawa a chystadlu er mwyn cael celc.
9. Yn y rhaglen hon mae dau ar soffa yn cyfarch cenedl wedi iddi daro deuddeg.
10. Bydd dim llysieun yn stwmp yn y rhaglen hon, dim ond llanast a lol i'r ifanc.



## Cyngor Cymuned **Melindwr**

Cyfarfu'r Cyngor nos Iau Tachwedd 21 dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Sarah Hughes.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Mis Hydref 2024 fel rhai cywir.

Mae gan Cyngor Cymuned Melindwr safle we newydd sydd wedi ei dylunio gan Gwe Cambrian.

Cytunodd yr aelodau y byddent yn addurno coeden ar y thema angylion i Ŵyl Coed Nadolig Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor. Nodyn i atgoffa fod Cyngor Cymuned Melindwr yn gwahodd ceisiadau am grantiau bychain oddi wrth mudiadau lleol i gefnogi prosiect neu weithgaredd. Gofynnir i'r ceisiadau gynnwys y canlynol:

Amlinelliad o'r prosiect / gweithgaredd a'i fudd i'r ardal neu i'r brodorion.

Manylion o gyllid y prosiect / gweithgaredd a pha elfennau y mae y cais yn ei ariannu.

Copi o fantolen ariannol diweddar y mudiad.

Mae angen danfon y ceisiadau i Lynne B Davies (Clerc Cyngor Melindwr), ebost cyngormelindwrcouncil@gmail.com. Rhaid derbyn y ceisiadau erbyn Rhagfyr 31 2024. Bydd y ceisiadau yn cael eu trafod yng nghyfarfod Ionawr 2025.

Dymuna y cynghorwyr Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i drigolion Melindwr.

Ni fydd yna gyfarfod yn Mis Rhagfyr. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Iau Ionawr 16eg 2025 am 7.30yh yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor.


## Nadolig 2024



Fel arferol, Nadolig – yw geiriau
Y garol, a'i miwsig
Yn binacl go arbennig,
Cyn dod cleisiau'r dyddiau dig.

Ba obaith moli'r baban – a beunydd
Fabanod yn griddfan
Yn eu hofer gyflafan.
Gwae oes o boenydio'r gwan.

**HUW CEIRIOG**



# Bow Street

**Suliau'r Garn**
10.00
*Rhagfyr*
22 Gwasanaeth y Gair a'r Geiriau
25 9.00 Gwasanaeth Nadolig
29 Dim oedfa

*Ionawr 2025*
5 Trefniant lleol
12 John Tudno Williams
19 Dim oedfa
26 Judith Morris

**Suliau Noddfa**
*Rhagfyr*
22 Uno yn y Garn
24 Dim Oedfa Noswyl Nadolig
25 Uno yn y Garn am 9.00
29 Dim Oedfa

*Ionawr*
5 Uno yn y Garn
12 Richard Lewis. Cymundeb.
19 Cyfeillach
26 Richard Lewis

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlir yn ddiffuant â Dai ac Auriel Evans, Trewylan, a'r teulu wrth i brofedigaethau ddod i'w rhan yn ddiweddar.

**Adfent Elusengar Noddfa**
Wrth i'r Nadolig agoshau penderfynwyd cyflwyno casgliadau rhydd pedwar Sul tymor yr Adfent i gronfa Banc Bwyd Aberystwyth. Yn yr un cywair cafwyd cyfle yn yr Oedfa ar Sul cyntaf yr Adfent i roi sylw i'r gwaith y mae'r Grŵp Crefft sydd yn cyfarfod yn y Festri bob dydd Iau wedi bod yn ei wneud dros yr wythnosau diwethaf, sef creu blancedi i'w hanfon i'r Iwcraen. Ar derfyn yr Oedfa cafwyd cyfle i weld tua 25 o'r blancedi hyn mewn arddangosfa fechan yn y Festri. Y bwriad yn awr yw trosglwyddo'r blancedi i ofal Jenny Jenkins, Tal-y-bont, fydd yn mynd a nhw i'r Iwcraen ar ei hymweliad nesaf a'r wlad yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Fel y gwelir yn y llun mae'r blancedi yn lliwgar ac amrywiol o ran maint a hyderwn y byddant yn adnodd gwerthfawr wrth i'r Iwcraen wynebu hunllef gaeaf oer iawn arall.




**Merched y Wawr**
Yn ein cyfarfod mis Tachwedd cawsom gwmni y cyn heddwas Arfon Jones o Landre. Bu Arfon yn heddwas am 32 o flynyddoedd a chawsom storïau ac atgofion diddorol iawn ganddo am ei yrfa. Er ymddeol mae'n dal i fod yn berson prysur iawn gyda llawer o ddiddordebau ac yn hoff o gerdded.

Mae wedi gwneud tair taith i elusennau, un i Ben Nevis at Marie Curie, un i Batagonia at British Heart Foundation ac un i Kilimanjaro dros cancr.

Bu hefyd ar S4C ar y rhaglen "Am Dro" yn cerdded llwybrau Llandre. Noson ddiddorol iawn.

Ar nos Fawrth y trydydd o Ragfyr cawsom ein cinio Nadolig yn Nhafarn Rhydypennau. Ar ôl pryd hyfryd cawsom ein diddanu gan Lowri Haf Cooke. Bu'n trafod y llyfr *Amser Nadolig* (Sebra) wnaeth hi olygu. Llyfr diddorol iawn gyda atgofion a storïau gan 24 awdur ac yn cynnwys eu hoff ryseit. Darllenodd Lowri ei chyfraniad hi i'r llyfr, - difyr a dwys. Hefyd cawsom gyfle i brynu copi a chael ei arwyddo gan Lowri. Noson ddifyr iawn.

## Noddfa

*Heddwch*
Heddwch a fag gyfoeth cyfoeth a fag genfigen cenfigen a fag ryfel rhyfel a fag dlodi tlodi a fag heddwch heddwch a fag gyfoeth. Anhysbys

Diana oedd yn gyfrifol am y gyfeillach mis Tachwedd a heddwch oedd thema'r myfyrdod. Dechreuodd Diana'r myfyrdod gydag emyn R. J. Derfel sy'n cynnwys y geiriau Teyrnasa dros ein daear oll, myn gael pob gwlad i drefn ac yna darllenodd y Gwynfydau o Bennod pump Efengyl Mathew. Yna cyflwynodd Medi James, sy'n aelod o Gymdeithas y Cyfeillion, a siaradodd Medi am wrthwynebwyr cydwybodol fel Waldo Williams a George M.Ll. Davies, am Gwilym Davies yn sefydlu neges heddwch yr Urdd ac am waith ei merch Mali yn hyrwyddo'r neges ac ymweliad aelodau'r Urdd â Chanolfan Heddwch Nobel yn Oslo. Yna soniodd am gynllun Cymdeithas Y Cyfeillion i gael disgyblion ysgolion i feddwl am gyfryngu a dulliau o gymodi fel ffyrdd o drin ag anghydfod.

I gloi'r myfyrdod canwyd emyn E. Llwyd Wiliams sy'n cynnwys y geiriau 'Rho inni fyd heb boen a phla, heb ing ymrafael trist;. Bydd y gyfeillach nesaf yn Ionawr dan ofal Mair.





**Caws a gwin**
Cafwyd amser difyr iawn yn Neuadd Rhydypennau pan gynhaliwyd noson caws a gwin ym mis Tachwedd gydag adloniant gan gôr ABC. Roedd y Neuadd yn llawn gyda ymhell dros gant o bobl yn mwynhau gwin Ffrainc a llond plât o gaws a biscedi. Roedd yn achlysur arbennig i ddangos y gwelliannau sylweddol sydd wedi eu cyflawni yn ystod y misoedd dwetha gyda grant y Loteri a grant Cynnal y Cardi.

Hefyd, ar Ragfyr 3ydd, daeth criw mawr o blant a theuloedd draw ar ôl goleuo coeden Nadolig y pentref i fwynhau cymdeithasu gyda mins peis a gwin poeth. Unwaith eto cafwyd noson braf a hwyliog. Roedd hwn hefyd yn gyfle i bobl weld y gwelliannau sylweddol, diweddar a wnaethpwyd yn y Neuadd.

## Capel y Garn

Nos Wener, Tachwedd 15fed, daeth Rheinallt Llwyd i'r Gymdeithas Lenyddol i roi cipolwg ar waith a gyrfa Islwyn Ffowc Elis ar ganmlwyddiant ei eni. Fore Sadwrn Tachwedd 30ain cynhaliodd Cymdeithas y Chwiorydd Fore Coffi'r Adfent gyda'r elw i fynd at Fanc Bwyd y Jiwbili. Diolch i'r cwis darluniadol oedd wedi ei baratoi gan Iestyn Hughes cafwyd orig o drafod a sgwrsio bywiog.







**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad gydag Amlyn Ifans a'r teulu, Bryn Castell ar farwolaeth brawd yng nghyfraith, Prys Dafydd, yng Nghaerdydd ar 23 Tachwedd.

# NADOLIG GAZA

Mae'n bosibl y clywir canu'r geiriau canlynol ym mhlygain Penrhyn-coch eleni:

*Yn gadaarn waredwr, gwych odiaeth greawdwr,*
*Ymgleddwr a nerthwr i'r noeth,*
*Yn fywyd i feirwon, yn iechyd i'r cleifion,*
*Iawn wisgoedd i'r noethion a wnaeth,*
*Rhoi golwg i'r deilion a chlyw i'r byddarion*
*A threfnu gwiw foddion yn faeth*

Pe bai trigolion Gaza yn clywed y geiriau, byddai'r cyferbyniad rhwng gweithrediadau Duw'r garol â'u cyflwr enbydus nhw yn eu taro'n chwerw o chwithig.

Polisi bwriadol o newynu, nid ' gwiw foddion yn faeth' sy'n digwydd yn Gaza. Mae bomio sytematig ar ysbytai a chyfleusterau dyngarol YN CEISIO chwalu unrhyw obaith am roi 'iechyd i'r cleifion' a byddai triniaeth cataract i roi 'golwg i'r deillion' a chymorht i 'roi clyw i'r byddarion' allan o'r cwestiwn wrth gwrs. A ble mae'r 'cadarn waredwr' wrth i luoedd arfog Israel (ie Israel o bawb) ladd dros 40,000 o bobl ac anafu miloedd dirifedi eraill, cyfran uchel ohonyn-nhw'n blant.

Ond nid dyna'r stori i gyd, diolch, fel y dywedwn weithiau, i'r nefoedd. Ynghanol y dinistr annisgrifiadwy fe welwn achubwyr yn twrio yn y rwbel ac yn cario'rclwyfedig i'r hyn sy'n weddill o'r gwasanaeth iechyd, a meddygon mewn amgylchiadau truenus yn gwneud eu gorau i'w ymgeleddu. Ac mae gweithwyr dyngarol y Cenhedloedd Unedig a'r elusennau wedi aberthu nid dim ond eu hawddfyd a'u cysuron, ond eu bywydau hefyd, er lles eraill.

Y gwroniaid hynod hyn, nid awdurdodau Israel, y mae rhai yn eu mysg am gyfiawnhau eu hysgelerderau mewn termau Beiblaidd, y dylen-ni gadw yn ein meddyliau wrth ganu ein carolau plygain eleni. Nhw sy'n gwneud gwaith y 'gwych odiaeth greawdwr' ac yn cynrychioli ysbryd y Nadolig – ïe a'r Pasg hefyd.

**Cynog Dafis Rhagfyr 2024**

## Erthygl **Elin Jones AS** a **Ben Lake AS**

Gyda diwedd y flwyddyn yn prysur agosau, mae'n parhau i fod yn gyfnod heriol i nifer ohonom yng Ngheredigion, gyda'r frwydr i geisio cadw gymaint o wasanaethau a busnesau yn y sir â phosib.

Roedd yn siom fawr i glywed fod Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wedi cyhoeddi eu bod yn ystyried dod â'r cyrsiau israddedig i ben yn Llambed, ar ôl 200 mlynedd o ddarparu addysg israddedig yno. Mae hyn yn newyddion gwael iawn i dref Llambed, a byddwn ni'n rhoi pwysau ar y Brifysgol i ailystyried hyn, er lles yr economi leol, y dref, a'r ardal o'i chwmpas.

Mae'r gwasanaeth iechyd yn bwnc llosg hefyd. Mae gan y rhan helaeth ohonon ni brofiad o'r rhestrau aros hir, a nawr daw'r newyddion pryderus nad yw'r Bwrdd Iechyd eto wedi llwyddo i sicrhau contractiwr i ddechrau ar brosiect Cylch Caron. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dweud wrthom eu bod yn parhau i geisio dod o hyd i ddatrysiad ar hyn a fod y prosiect yn flaenoriaeth iddynt. Byddwn ni'n dau yn mynnu diweddariadau cyson, er mwyn sicrhau eu bod yn cadw at eu haddewid.

Gyda chymorth Dolen Teifi o Landysul, rydym wedi llwyddo i sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i hwyluso gwasanaethau trafnidiaeth cymunedol yn ne'r sir. Prynwyd dau gerbyd newydd ac mae'r bws yn ardal Llambed ar waith yn barod, a gobeithio bydd yr ail fws yn dechrau ar ei daith yn ardal Llandysul, Llandyfriog, Beulah a Llangoedmor yn yr wythnosau nesaf.

Gofynnwn yn garedig i chi ystyried siopa'n lleol gymaint ag y gallwch chi, yn enwedig wrth i chi baratoi ar gyfer y Nadolig. Mae'n bwysig cefnogi ein busnesau lleol ar adeg sy'n heriol iawn iddynt. Cofiwch hefyd fod cymorth ar gael i helpu gyda chostau tanwydd a gwresogi'n y gaeaf, felly cadwch yn gynnes, ac os gewch unrhyw drafferthion, cysylltwch â ni â'n swyddfeydd, ac fe wnawn ein gorau i'ch cynorthwyo.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi oll.

Cadwch yn ddiogel.

**Ben ac Elin**



## Nadolig 2024

Y meudwy a'r gormodedd – deuoliaeth
Ein dwy ŵyl; cyfaredd
Holl seiniau'r clychau a'r cledd,
Y felan a'r gorfoledd.

**ANWEN PIERCE**



# Ysgol **Craig yr Wylfa**









## YSGOL Y GYMUNED

Mae'r misoedd diwethaf hyn wedi bod yn hynod o anodd i holl gymuned Ysgol Craig yr Wylfa. Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi gweithio mor galed i ddangos cryfder teimladau'r ardal am rôl yr ysgol o fewn y gymunedol ac am frwydro nid yn unig dros y garfan bresennol o ddisgyblion ond wrth edrych ymlaen at y dyfodol hefyd. Mae llawer o gynigion wedi cael eu llunio er mwyn ceisio gwneud yr ysgol yn fwy cynaliadwy dros y blynyddoedd sydd i ddod.

Mawr obeithiwn y bydd y cynghorwyr yn gweld mai cadw'r ysgol ar agor yw'r opsiwn gorau i'r gymuned yn gyffredinol ac yn arbennig i blant y pentref a'r cyffiniau.

**Cyngerdd Nadolig**

Roedd hi'n hyfryd i weld cymaint o bobl wedi dod i gefnogi'r ysgol yn ein cyngerdd Nadolig eleni eto, bydd mwy o fanylion am y noson yn y rhifyn nesaf.

**Diwrnod Plant Mewn Angen**

Roedd llawer o brysurdeb eleni eto wrth i ni dynnu sylw at yr elusen bwysig yma. Mae'n draddodiad bellach i aelodau'r Cyngor Ysgol drefnu'r gweithgareddau a hynny'n hollol annibynnol o'r staff! Roedden nhw wedi trefnu gemau gwych, peintio wynebau, stondin gacennau a chystadleuaeth enwi'r tedi. Diolch yn fawr i chi gyd am eich gwaith a da iawn am godi arian tuag at yr elusen.

## YSGOL IACH

**Wythnos Gwrth-fwlio**

Yn ystod mis Tachwedd roedd hi'n wythnos gwrth-fwlio cenedlaethol ac fe fanteisiodd yr ysgol ar y cyfle i gynnal trafodaethau bywiog am y gwahaniaeth rhwng bod yn gas a bwlio. Er mwyn pwysleisio fod pawb yn wahanol a bod hawl gan bawb i fod yn wahanol, gwahoddwyd y disgyblion i wisgo sanau gwahanol ac fe gafwyd sawl cyfuniad diddorol! Da iawn chi blant am ymateb mor bositif i'r negeseuon.

**'Bwyd Bwyd Bwyd!'**

Rydym wedi bod yn brysur yn dysgu sut i ysgrifennu ryseitiau o fewn thema'r dosbarth. Meddyliodd pob un o'r plant am fyrbryd iach y gallen nhw ei greu, pethau fel ffyn ffrwythau neu smwddis, ac yna fe wnaethon nhw ysgrifennu a dilyn eu ryseitiau i greu eu byrbryd iach!

**Dannedd**

Fel rhan o'r thema Bwyd, daeth Nyrs atom i bwysleisio pwysigrwydd bwyta'n iach ac yn enwedig pa mor bwysig yw hi i ofalu am ein dannedd. Roedd y plant wrth eu boddau'n chware gyda'r dannedd a'r brwshys mawr!

## YSGOL ECO

**Ysgol y Goedwig**

Rydym wedi bod yn brysur yn ein gweithgareddau y mis yma eto. Rydym wedi bod yn adeiladu cuddfan newydd ar gyfer ein hardal awyr agored, yn gwehyddu platiau, yn coginio ar y tân, a hefyd wedi creu helfa drysor i'r holl ddisgyblion fel rhan o'r gweithgareddau Ysgol y Goedwig.

**Coetir Anian**

Rydym bob tro'n falch iawn o'r profiadau newydd rydym yn eu cyflwyno i'r disgyblion. Yn ystod mis Tachwedd, aethom ar antur gwahanol i ymweld â Choetir Anian ar y bryniau uwchben Machynlleth. Diolch yn fawr i'r




staff am y croeso ac am sicrhau bod digon o weithgareddau bywiog i'n cynhesu.

### YSGOL GELFYDDYDOL

Gwersi Offerynnol

Rydym wedi bod yn ffodus iawn o gael Miss Rose i ddod nol i'r ysgol eleni eto i gyflwyno gwersi offerynnol i Ddosbarth Allt y Grib. Mae'r plant wedi bod werth eu boddau'n cadw rhythmau gwahanol a chwythu'r offeryn pBuzz a chwarae'r ffidil i ganeuon adnabyddus. Yr uchafbwynt oedd dysgu caneuon ar gyfer y Nadolig. Da iawn chi blant am ymateb mor frwd i'r gwersi yma a diolch arbennig i Helen hefyd

### PONT YR WYLFA

**Arddangosfa Ruth Jên**

Gweithgaredd hynod fuddiol a drefnwyd ar y cyd gydag Ysgol Tal-y-bont yn ystod y mis oedd mynd i weld Arddangosfa Ruth Jên yn MOMA, Machynlleth. Roedd yr arddangosfa'n gyfle i weld gwaith printio gan Ruth dros y blynyddoedd a deall sut bod ei harddull wedi newid dros gyfnod o amser. Roedd yn gyfle hefyd i werthfawrogi gwaith lliwgar Jonathan Retallik o Ynys Môn. Diolch o galon i Helen Jones am ein tywys drwy'r arddangosfa a llongyfarchiadau Ruth am safon yr arddangosfa.

### SIARTER IAITH

**Cynefin ar Gân**

Gweithgaredd arall ar y cyd oedd cyfansoddi cân gyda disgyblion o ysgolion eraill Ceredigion gan gynnwys ein ffrindiau o Ysgol Craig yr Wylfa i gyd-fynd gydag amcanion Y Siarter Iaith. Yr her oedd creu cân newydd sbon am yr ardal leol a hynny mewn prynhawn yn unig! Roedd ymateb y plant yn frwdfrydig iawn wrth iddyn nhw enwi nodweddion lleol fel Traeth y Borth, Cantre'r Gwaelod a'r Afon Leri. Diolch yn fawr i swyddogion y Siarter Iaith am drefnu ac i'r bardd Rocet Arwel Jones am y gweithdy difyr. Bydd y cerddor Mei Gwynedd yn cyfansoddi cerddoriaeth i'r geiriau ac rydym yn edrych ymlaen at y sesiwn recordio ym mis Ionawr.

**Antur Amser**

Gyda chymaint o adloniant Saesneg ar gael i'r plant gafaelgar, roedd hi'n hyfryd gallu croesawu Hannah a Rhodri i'r ysgol er mwyn i blant CA2 beilota pecyn aml-gyfrwng o weithgareddau addysgiadol yn y Gymraeg o'r enw 'Antur Amser'. Roedd y dosbarth wedi gorfod datrys cod cymhleth er mwyn cael mynediad i gêm cyfrifiadur ac roedden nhw wrth eu boddau gyda'r gêm. Diolch am gael bod yn rhan o'r weithgaredd.

**Plant 3 oed?**

Cofiwch gysylltu gyda ni os oes gyda chi blentyn sydd yn 3 oed, cysylltwch gyda ni er mwyn i ni allu rhannu ein cynlluniau cyn ysgol gyda chi.

Croeso i deuluoedd
6 teledu gyda Sky Sports
Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr
Bwrdd 'pool' a byrddau darts
Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim
TAFARN Y ROOSTERS
HOME OF / CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC
01970 828 992

WEST WALES ANTIQUES CAPEL BANGOR
Ydych chi angen gwerthu hen bethau, neu efallai angen gwacâu tŷ?
• Dodrefn • Arwyddion Enamel • Tacsidermi • Peintiadau • Cerflunwaith a Dodrefn Ardd • Hysbysebion • Carthenni • unrhywbeth hen neu anarferol!
Prynwr a Gwerthwr Hen Bethau
www.west-walesantiques.co.uk 07866 005996 dryburghantiques@gmail.com



Gwasanaeth argraffu diguro
Holwch Paul am bris!
paul@ylolfa.com
01970 832 304
y olfa
Talybont
Ceredigion
SY24 5HE
www.ylolfa.com

Trydan WILL DAVEY Electrical & AV
- Gosodiad Trydanol Ardystiedig
- CCTV a AV
- Arolygu & Phrofi
- Pŵeru cerbydau trydan
- Gosod PV solar
GWYNFA, PISGAH, ABERYSTWYTH, SY23 4NE
07581 173 684 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

# Y Borth

**Storom Darragh**

Bu'r rhan fwyaf o'r pentref heb drydan o oriau man fore Sadwrn 7 Rhagfyr wrth i storom Darragh daro'r arfordir.

Yn ffodus, cafodd cyflenwad i fwyafrif y pentrefwyr ei adfer yn ystod prynhawn dydd Sadwrn ond bu ambell gartref heb drydan am rai dyddiau a chafwyd trafferthion gyda'r signal ar gyfer ffonau symudol hefyd.

Mae aelodau Sied y Dynion sy'n cwrdd yn Hwb Cymunedol Y Borth wedi cynnig helpu trigolion lleol i gymhennu a chlirio rhywfaint o'r difrod a wnaed gan y storom megis trwsio difrod i ffensys gardd.

Bu'n rhaid gohirio Ffair Elusennau'r Borth ar y dydd Sadwrn oherwydd y tywydd difrifol a'r bwriad yw ei chynnal yn y Flwyddyn Newydd.



**Ysgol Craig yr Wylfa**

Daeth ochenaid o ryddhad gan rieni, plant a chefnogwyr Ysgol Craig yr Wylfa ddechrau'r mis yn sgil cyhoeddiad Cyngor Sir Ceredigion eu bod yn oedi'r broses o gau pedair o ysgolion y sir.

Roedd proses ymgynghori statudol eisoes wedi cychwyn i gasglu ymatebion i'r cynlluniau i gau Ysgol Craig yr Wylfa, Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn, Ysgol Llangwyryfon ac Ysgol Syr John Ponterwyd erbyn 31 Awst 2025 a hynny oherwydd cynni ariannol a niferoedd isel.

Bellach, ni fydd yr un o'r ysgolion yn cau am y tro am nad yw'r amserlen yn gyrraeddadwy ond yn hytrach bydd y cyfnod o ymgynghori yn un anffurfiol i gasglu barn cymunedau lleol.

Daeth y penderfyniad ar ôl i gyfreithwyr ar ran y pedair ysgol herio amserlen yr awdurdod lleol ar gyfer yr ymgynghoriad statudol ac agweddau ar y dogfennau ymgynghori.

Mae llywodraethwyr yr ysgolion hefyd wedi galw am ymchwiliad i'r broses hyd yma ac am oedi unrhyw benderfyniadau tan ar ôl etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2027.

Ym mis Medi, roedd dros 150 o brotestwyr o'r Borth a'r ardaloedd eraill wedi ymgasglu y tu allan i swyddfeydd y cyngor yn Aberaeron i alw am gadw'r ysgolion yn agored.

**Canolfan Ymwelwyr Dyfi Ynys-las**

Ar noson o wynt a glaw mawr, daeth dros 70 o bobl ynghyd yn Neuadd Goffa Gymunedol Y Borth i glywed y diweddaraf gan swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru am eu cynlluniau ar gyfer Canolfan Ymwelwyr Dyfi Ynys-las.

Mewn cyfarfod cyhoeddus tanllyd ar adegau, dywedwyd y byddai'r Ganolfan yn cau ei drysau ar 31 Mawrth 2025 ond y byddai'r toiledau, y llwybrau a'r maes parcio yn parhau yn agored. Gwnaed y penderfyniad mewn ymateb i'r sefyllfa ariannol gyfyng iawn y mae CNC yn ei hwynebu.

Yn dilyn y cau, bydd CNC yn dechrau proses gyhoeddus o chwilio am bartneriaid a allai fod â diddordeb i helpu i redeg gwasanaethau arlwyo a masnachol yn Ynys-las yn ogystal ag ym Mwlch Nant yr Arian a Choed y Brenin yn y dyfodol.

Maen nhw hefyd wedi gofyn i bobl gymryd rhan yn y broses o fynegi diddordeb erbyn 10 Ionawr 2025 ar gyfer defnydd cymunedol o Ganolfan Ymwelwyr Ynys-las. Mae manylion pellach am hyn i'w cael ar wefan CNC.

Yn ogystal, caiff sesiynau galw heibio eu cynnal i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r gymuned am ddyfodol Ynys-las a'r ddwy ganolfan arall, gyda staff CNC wrth law i siarad am y safleoedd ac i ateb unrhyw gwestiynau.

Mae angen cadw lle yn y sesiynau drwy e-bostio ymgysylltu.masnachol@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk gan nodi'r digwyddiad a'r amser yr hoffech chi fod yn bresennol.

Bydd y sesiynau galw heibio yn cael eu cynnal fel a ganlyn:

Dydd Mercher 8 Ionawr rhwng 10am a 3pm yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3UR.

Dydd Llun 13 Ionawr rhwng 10am a 3pm yng Nghanolfan Ymwelwyr Coed y Brenin, Dolgefeiliau, Dolgellau LL40 2HZ.

Dydd Llun 20 Ionawr rhwng 10am a 3pm yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3UR.

Dydd Gwener 24 Ionawr rhwng 10am a 3pm yng Nghanolfan Ymwelwyr Coed y Brenin, Dolgefeiliau, Dolgellau LL40 2HZ.

**Dathliad Santes Dwynwen**

Bydd y gantores Lowri Evans yn perfformio yn Y Borth am 7.30yh nos Sadwrn 25 Ionawr fel rhan o ddathliad Dydd Santes Dwynwen.

Caiff y digwyddiad ei gynnal yng nghlwb Golff Y Borth ac Ynys-las ac mae croeso cynnes i bawb, boed yn aelodau ai peidio.

Mae tocynnau'n £20 y pen, yn cynnwys swper ysgafn, ac ar gael ymlaen llaw yn unig naill ai o'r clwb ei hun neu drwy ffonio Esther Prytherch ar 07968 593078.

Yn hanu o Sir Benfro, mae Lowri Evans a'i phartner-gitarydd Lee Evans newydd gwblhau taith o gwmpas lleoliadau yng Nghymru, Lloegr ac Iwerddon yn cefnogi'r canwr Tom McRea.





**Seren Aur i Hwb Cymunedol Y Borth**

Hwb Cymunedol Y Borth yw'r sefydliad trydydd-sector cyntaf i dderbyn Gwobr Seren Aur Byrbrydau Iachus gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda. Cyflwynwyd y wobr arbennig gan Laura Thomas, Arweinydd Tîm Dietegol Gwella Iechyd, i Amanda Mallows, sy'n rhedeg cegin yr Hwb.



**Geni Gefeilliaid**

Croeso mawr i'r byd i Osian ac Elis, gefeilliaid a anwyd yn Llundain ar 22 Tachwedd yn feibion i Felicity Elena Haf a'i gŵr Rishi Kumar. Mae gan y bechgyn bach annwyl fam-gu a thad-cu yn Y Borth, sef Haf ap Robert a Joe Mitchell, a hen fam-gu yn Bow Street, Felicity Roberts.

**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**

Perchennog: Laurence Kelly

**AR AGOR**
**Llun – Sadwrn**
**7 y bore – 9 yr hwyr**
**Sul**
**7 y bore – 7 yr hwyr**

**Papurau dyddiol a'r Sul, cardiau cyfarch siop drwyddiedig**

**01970 828312**

## Clwb Golff Y Borth ac Ynys-las

**Treialon Twrci a'r Nadolig**
Cafwyd cystadlu brwd yn adran y menywod a'r dynion wrth i'r treialon Twrci a'r treialon Nadolig fynd rhagddynt, gyda chystadlaethau gwahanol pob penwythnos - pan oedd y tywydd yn caniatáu! Bu'n rhaid canslo ambell i ornest oherwydd Storom Bert ac yna storom waeth Darragh. Byddwn yn dathlu enillwyr y tymor yn ein ciniawau Nadolig ganol Rhagfyr.

Dyma ganlyniadau adran y dynion ar gyfer mis Tachwedd a Rhagfyr, gyda chanlyniadau adran y menywod i ddilyn yn y flwyddyn newydd.

**Adran y Dynion**
Treialon Twrci 1 - Medal
Rob Galiford - net 71
Roy Jones – net 71
Gregory Williams - net 73

Treialon Twrci 2 - Stableford
John Blackburn - 44 pwynt
Stephen Lucas - 42 pwynt
Kenneth Griffiths 41 pwynt

Treialon Twrci 3 - Bogey
Hywel Thomas 6
Martin Haynes 3
R Gwynn Jenkins 3

Treialon Twrci 4 - Medal
Rob Galliford - net 64
Simon Bentley - net 68
Nathan Perkins - net 69

Treialon Twrci 5 - Stableford
Harri Jones - 41 pwynt
Rob Galliford - 36 pwynt
Stephen Lucas - 35 pwynt

**Tlws Gaeaf yr Adran Hŷn**
1af - Roy Jones - 38 pwynt
2ail - Alan Shaw - 33 pwynt
3ydd - Hywel Thomas - 30 pwynt

**Cwis a Chyri**
Cafwyd noson lwyddiannus iawn yn y clwb ar 15 Tachwedd, gyda'r lolfa yn llawn o dimau yn barod i gystadlu mewn cwis. Ein cwis feistres oedd Esther Prytherch gyda chwestiynau amrwyiol o'r byd chwaraeon, daearyddiaeth, gwleidyddiaeth a rownd o gerddoriaeth boblogaidd. Ein buddugwyr oedd tîm 'Y Didoreths' oedd yn cynnwys Laura a Nathan Perkins, a Jeff ac Andrea Evans. Llongyfarchiadau iddyn nhw.

Cafwyd raffl hefyd a chodwyd £210 ar gyfer elusennau'r capteiniaid sef Ymchwil Sepsis a Chlwb Bocsio Aberystwyth. Nans Morgan, Llandre, enillodd y brif wobr yn y raffl, sef hamper o fwydydd y tymor.



Yn dilyn gyrru cyfarchion pen blwydd yn ddiweddar i Nansi Hayes yng Nghaerfyrddin cysylltodd gyda lluniau yn dangos ei chyfnod yn paratoi newyddion y Borth i'r Tincer. Cyfarchion y tymor iddi a'n cofion cynhesaf.

COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

RHYD-Y-PENNAU
COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888

MID WALES STORAGE
STORFA CANOLBARTH CYMRU
Storfa Cartref a Busnes
Ystafelloedd storio ar gyfer Eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 Awr
Wedi ei wresogo
Bocsys a 'bubblewrap' ar lein



MID Wales REMOVALS
www.midwalesstorage.co.uk
Ffon : 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth,
SY20 8BQ
SCAN ME





# Ysgol **Penrhyn-coch**



**Dysgu'r Tymor**

**Gweithdy perllan**

Fel rhan o waith Dosbarth Drudwy ar ysgrifennu llythyron aeth y plant i gyd i holi cwestiynau i Craig yn y Swyddfa Bost a phrynu stampiau. Roedd yn braf i ddefnyddio Cymraeg yn y Swyddfa Bost. Ers hynny, mae'r plant wedi cael sawl cyfle i ysgrifennu llythyron at ein ffrindiau yn Ysgol Pen-llwyn, ac ar ran Elen Benfelen yn ymddiheuro i'r tair arth ac i ysgrifennu eu llythyron at Siôn Corn nesaf.

**Ffair Eco**

Diolch i bob un a gyfrannodd deganau i werthu yn ein ffair Nadolig ail-law. Codwyd £185 tuag at y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.





## 'GYDA'N GILYDD GALLWN LWYDDO' – PENRHYN-COCH A PHEN-LLWYN AR Y CYD

**Pêl Rwyd**

Llongyfarchiadau mawr i dimoedd pêl rwyd merched a chymysg yr ysgol a fu'n cystadlu yn nhwrnamaint yr Urdd mis diwethaf. Bu cystadlu arbennig o dda gyda'r timoedd yn ennill nifer o gêmau cystadleuol yn eu grŵp.

**Hoci**

Daeth y tymor hoci i ben ar ddiwedd mis Tachwedd gyda'r disgyblion wedi mwynhau chwarae bob nos Iau yn erbyn ysgolion yr ardal ers dechrau mis Medi. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd rhan, gan arddangos sgiliau arbennig o dda.

**Y Ffair Aeaf**

Braf oedd gweld disgyblion y ddwy ysgol yn cystadlu a llwyddo yng nghystadlaethau crefft y Ffair Aeaf, Llanelwedd. Llongyfarchaidau i Ifan, Myfi o Benrhyn-coch a enillodd wobrau am greu cacennau Nadoligaidd, ac i Corey a ddaeth 3ydd am greu Carw deniadol.

Llongyfarchiadau i'r ddau grwp a fuodd yn cystadlu ar ran ysgol Pen-llwyn. Buodd criw Dosbarth 2 yn creu Carw penigamp gyda Kathy ac roedd yn ardderchog! Pyped oedd y carw bach ac fe dderbyniodd y wobr gyntaf!!

Bu Dosbarth 1 yn creu Eira ailgylchu-dynes eira allan o ddeunyddiau ailgylchu ac roedd hithau yn edrych yn arbennig!

**Gwasanaethau**

Mae hi wedi bod yn braf croesawu'r Parchedig Derrick Adams bob mis i gynnal gwasanaethau gyda disgyblion y naill ysgol. Mae disgyblion wrth eu boddau yn gwrando ar Derrick yn adrodd straeon y Beibl. Diolch iddo am roi o'i amser i rannu gwersi'r Beibl gyda'n disgyblion.

**Arolwg**

Croesawyd Estyn i'r ddwy ysgol canol mis Tachwedd gan dderbyn arolygiad interim. Bydd llythyr o'i canfyddiadau ar gynnydd ar argymhellion arolwg 2022 yn cael ei gyhoeddi ar Ragfyr 14eg.

**Profiadau theatrig**

Mwynhaodd disgyblion y ddwy ysgol Cynhyrchiad Cwmni Mega o Culhwch ac Olwen yng Nghanolfan y Celfyddydau. Braf oedd derbyn grant Ewch i Weld, Cyngor y Celfyddydau, a ariannodd docyn i bob plentyn weld y sioe.

Croesawyd cwmni theatr Arad Goch i'r ysgol i berfformio Cymrix i ddisgyblion y ddwy ysgol. Dyma adolygiad o'r sioe gan Alisha Couling.

**Adolygiad O'r Sioe 'Cymrix'**

Ar y 15ed o Dachwedd, roedd Cwmni Theatr Arad Goch wedi dod i ein Ysgol ni i ddangos sioe Cymrix. Daeth Ysgol Pen-llwyn draw hefyd. Roedd yn wych. Roedd pawb yn eistedd yn dawel fel eistedd mewn sinema. Y prif cymeriadau oedd Caia, Nico ac Aden. Enw go iawn Caia oedd Hannah, enw go iawn Nico oedd Jacob ac yn olaf enw go iawn Aden oedd Izzy.

Dyma'r Cymeriadau arall oedd yn y sioe a oedd yn cael eu portreadu gan Hannah, Jacob ac Izzy.

Mr Davies, ond mae pobl yn galw Mr Davies yn GREASY KEV. Cymeriad arall oedd Kim. Mae Kim yn fam faeth a Michelle yn gynghorydd swyddi. Wow! Llawer o waith i dri actor bortreadu sawl cymeriad!

Ym mhob sioe mae yna thema. Yn y sioe yma mae yna bedwar thema, sef, Cymreictod, Iaith, ffrindiau, ac yn olaf cydweithio.

Roedd props y llwyfan yn syml iawn ond yn effeithiol. Roedden nhw'n symud bocsys mawr a bach i newid yr olygfa. Roedden nhw hefyd yn defnyddio bagiau ysgol.

Rydw i'n meddwl mae'r sioe yma yn addas i



**Noson bingo**
Diolch arbennig i Kirsty Chillery a Cathy Jones fu'n cynnal noson Bingo yn Neuadd y Penrhyn i godi arian i'r ysgol. Cafwyd noson hwylus i'r teulu cyfan, a codwyd £1700 i'r ysgol. Ymdrech arbennig! Rydym yn codi arian i wella'r iard chwarae o flaen yr ysgol. Os hoffech wneud cyfraniad, mae croeso i chi gysylltu gyda'r ysgol.

bobl 9 oed ac i fyny.

Hoffwn ddefnyddio lot o ansoddeiriau i ddisgrifio'r sioe yma fel rhyfeddol, gwych, hwyl, anasbaradigaethus, diddorol, dramatig a doniol iawn.

Rydw i'n credu fod neges y sioe yn bwysig sef does dim ots pa mor slic yr ydych yn siarad Cymraeg, siaradwch hi ac yn bwysicach na hynny mae'r iaith Gymraeg i bawb o bedwar ban byd.

**Cogurdd**
Da iawn i Florence a Jack fu'n cynrychioli'r ddwy ysgol yng nghystadleuaeth cylch Cogurdd! Cyflwynodd y ddau wrap sawrus hyfryd ar y diwrnod ac roeddynt wrth eu bodd yn cael y cyfle i gystadlu.

**Plant Mewn Angen**
Codwyd £327.20 rhwng y ddwy ysgol tuag at Plant Mewn Angen. Ymdrech dda iawn gan ein cymuned ysgol!

**Diwrnod sanau gwirion**
Nodwyd diwrnod Gwrth-fwlio wrth i ddisgyblion wisgo sanau od i'r ysgol a chynnal gweithgareddau ar lawr dosbarth.

## Ysgol Pen-llwyn

**Llusernau**
Diolch yn fawr iawn i Alice Briggs am ddod mewn i greu llusernau efo holl ddisgyblion yr ysgol ar gyfer y pared ar ddiwedd mis Tachwedd. Cafwyd llawer o hwyl wrth baratoi'r llusernau a braf oedd gweld cymaint o deuluoedd yr ysgol yn ymuno â'r parêd wrth droi goleuadau Nadolig y dref ymlaen.

**Sioe Nadolig**
Cynhaliwyd Sioe Nadolig yr ysgol ar nos Iau Rhagfyr y 5ed. Braf oedd gweld neuadd y pentref yn llawn wrth i'r blant perfformio nifer o ganeuon Nadoligaidd, sgets y bugail blin, sioe cysgodion, parti llefaru a dawns greadigol. Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion am berfformiad hyfryd. Hoffwn ddiolch i Miss Becks am ein helpu gyda'r dawnsio-roedd y disgyblion wrth eu boddau yn creu dawns y sêr!

**Gweithdy perllan**
Fel rhan o ymgyrch gan Cadwch Gymru'n Daclus, mae'r ysgol wedi ennill grant i greu Perllan yn yr ysgol. Dechreuwyd ar y gwaith ar ddechrau mis Rhagfyr yn plannu bylbs yn barod i flodeuo yn y Gwanwyn.



## Seren Bethlehem

Ym Methlehem Effrata un bore o hanes
Datguddiaist orweddle Iachawdwr y byd
Mae'r stabal yn ufflon, ond deil dy belydryn
I chwilio am faban a dyfodd o'r crud.

Tyrd seren yr oesau eleni i'm harwain
O'r Fethlem ryfedda a droesom yn Ŵyl
O tyrd a'th ddisgleirdeb o'r awydd i ddiffodd
Pob seren electric sy'n cynnal ein hwyl.

Dyrchafwn ein llygaid Gristnogion edifar
Mae seren ein gobaith yn dyfod ar daith
Ai da fydd y newydd o'r dwyrain cytnryblus?
Ni fethodd ei golau syfrdanol un waith.

Awn allan i'r caddug o wres ein cartrefi
Addolwyr penwythnos i balmant y stryd
O! seren y dwyrain mae gwaed ar dy bigau
Ai doeth fydd dy ddilyn yn ufudd i'r crud?

Ond wele wynebpryd yr Iesu'n tywynnu
Wrth edrych i fyny mae'n symud y staen,
Gan hollti'r cymylau a'u herchyll gysgodion
A glân fydd dy lwybyr i symud ymlaen.

O! seren yfory, danbeitiaf y cread
Dy ganfod gan ddoethion, a ninnau yn awr
Yng nglendid dy olau wrth blygu i'r Iesu
Rhyfeddwn o'r newydd at fendith mor fawr.

**VERNON JONES**

ADWEITHEG
Bethan Ifan
Aberystwyth
07375422608
Tocynnau rhodd ar gael

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD,
CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

# Enwau lleoedd
## Angharad Fychan

Wrth i chi ddringo drwy Gwm Ceulan o Dal-y-bont i gyfeiriad Bwlch y Garreg a chronfa Nant-y-moch, mae fferm *Carregcadwgan* (SN694902) i'w gweld ar ochr ogleddol y dyffryn, yn swatio yng nghesail Moel y Garn.




Ceir cyfeiriadau at yr enw o ganol y ddeunawfed ganrif ymlaen: *Tythin Carreg Cadwgan* mewn gweithred wedi ei dyddio 12 Mehefin 1745[1] ac mewn les o 29 Mai 1778,[2] a'r ffurf gryno *Carreg Cadwgan* yn Ewyllys Catherine Edwards o Geulan Maesmor yn 1779.[3]




**Map Arolwg Ordnans 6" IV NW (1887)**
© Arolwg Ordnans (100064713)

Er bod ail ran yr enw wedi ei ystumio i *y Dwgan* yn y ffurf a gofnodwyd ar fap chwe modfedd yr Arolwg Ordnans yn 1887, yr enw personol *Cadwgan* sydd yma, er na wyddom pwy'n union ydoedd.

Trosglwyddwyd yr enw i'r fferm o faen anferth *Carreg Cadwgan* sy'n gorwedd ar lan ogleddol afon Ceulan ychydig yn is i lawr y dyffryn (SN69059015). Roedd y maen hwnnw'n nodwedd dirweddol bwysig yn y gorffennol am ei fod yn ffurfio rhan o glawdd y mynydd.

Byddai mintai o bobl yn cerdded ffiniau pob plwyf yn flynyddol ers talwm, gan gynnwys clawdd y mynydd, er mwyn sicrhau bod y terfynau'n dal yn gadarn. 'Beating the bounds' yw'r term Saesneg ar yr arfer. Cedwid cofnodion ysgrifenedig o'r teithiau hyn ('perambulations' yn Saesneg), ac mae amryw wedi goroesi.

Dyma'r hyn a nodwyd yng nghofnod Llanfihangel Genau'r-glyn yn y flwyddyn 1857 am y rhan hon o Gwm Ceulan:

> then along the Stone wall runing East to the corner of the Stone wall runing North East, then up the same and around the Ancient Enclosure [?] Fronlas farm down to the river Cailan, and along the river passing the large Stone called '*Carrag Cadwgan*' and through a small Encroachment made by John Evans Winllan in 1850 to the corner of the Ancient Enclosed lands called *Carrag Cadwgan* then along the stone wall Erected upon the old Termination fence to the rill of water running down + passing a cottage called Rhydyrhenydd on the *Carrag Cadwgan* farm.[4]

Fel mae'n digwydd, nid y fferm a'r maen yma yw'r unig enwau yn yr ardal sy'n cynnwys yr enw personol *Cadwgan*. Mewn gweithred wedi ei dyddio 30 Tachwedd 1724 sy'n enwi amryw o lefydd ym mhlwyfi Llanfihangel Genau'r-glyn, Llangynfelyn, a Llanbadarn Fawr, sonnir am:

> land called Tythin Cwmysgolaig and the dairy or summer house thereunto belonging called *Llyest Ffynnon Cadwgan*.[5]

Ni wyddom leoliad y lluest hon i sicrwydd, ond gan fod Cwmysgolhaig (Cwm-slaid heddiw) yn Llanfihangel Genau'r-glyn, mae'n rhesymol tybio ei bod hithau o fewn yr un plwyf. Tybed felly a oedd rhyw fath o gysylltiad rhwng *Lluest Ffynnon Cadwgan* a *Charreg Cadwgan*?

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru **www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru** a Geiriadur Prifysgol Cymru **https://www.geiriadur.ac.uk/**

---

1. LlGC CB 2/11/1.
2. LlGC Glanpaith 211.
3. Ewyllys LlGC SD/1779/107.
4. LlGC Gogerddan GGA 3/1: Manor of Geneurglyn: Proceedings of the Court Leet held May 1857 when the Boundaries of the Manor and Wastes were perambulated, t.5.
5. LlGC: AE/ 1






# Ysgol **Rhydypennau**

**Codi Arian**
Roedd hi'n ddiwrnod Plant Mewn Angen ar y 22ain o Dachwedd. Er mwyn codi arian i'r elusen, mi fuodd plant blwyddyn 6 yn trefnu a gosod stondinau yn y neuadd ac ar yr iard er mwyn gwerthu nwyddau i blant, rhieni ac i ffrindiau'r ysgol. Ar ôl dwy awr dda o wario a gwerthu, codwyd £500.97. Ardderchog!

**Celf**
Ar y 7fed o Dachwedd, treuliodd plant blwyddyn 5 a 6 fore yn oriel MoMA, Machynlleth er mwyn cael cipolwg ar waith yr arlunydd lleol Ruth Jên. Nôl yn yr ysgol gyda chymorth ac arbenigedd Ruth Jên a chyn athrawes yr ysgol, Mrs Helen Jones sbardunwyd y plant i fynd ati i greu amrywiaeth o gelfyddyd arbennig. Diolch yn fawr i'r ddwy am ddiwrnod difyr iawn.

**Wythnos Gwrth-fwlio**
I godi ymwybyddiaeth o barch a goddefgarwch tuag at eraill, penodwyd diwrnod arbennig i'r plant ddod i'r ysgol wedi gwisgo sanau 'od'. Yn dilyn Gwasanaeth Gwrth fwlio, trefnwyd gweithgareddau amrywiol er mwyn dathlu gwahaniaethau a sbarduno sgyrsiau fod hi'n gwbl dderbyniol i fod yn wahanol ac unigryw.

**Gweithgareddau a Digwyddiadau**
Llongyfarchiadau mawr i aelodau tîm pêl rwyd cymysg yr ysgol ddaeth yn drydydd yng nghystadleuaeth rhanbarth Ceredigion. Ardderchog!

Yn syth ar ôl hanner tymor, mwynhaodd plant blwyddyn 2 ymweliad i barc Llandre er mwyn cymryd mantais o dywydd sych yr Hydref.

Llongyfarchiadau i'r plant lwyddodd i gyrraedd amcan 'Cynllun WOW'. Bwriad yr elusen yw hybu teithiau iach i'r ysgol. Enillodd y plant bathodyn yr un trwy gerdded neu sgwteran neu trwy barcio a cherdded i'r ysgol dros yr wythnosau diwethaf. Da iawn chi!

Mi fuodd plant blwyddyn 6 yn creu ac addurno llusernau yn unswydd ar gyfer noson goleuo coeden Nadolig y dref. Maent yn edrych yn wych!

Cafwyd noson hyfryd yn goleuo coeden Nadolig y pentref ar y 3ydd o Ragfyr. Diolch i'r pwyllgor am y gwahoddiad ac am y lluniaeth blasus yn y neuadd.

**Clwb Cant**
Dyma ganlyniad Tachwedd:
1af - £25 Chris Edwards
2il - £15 Bev Parry
3ydd - £10 Ginny Priddy

***Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Y Tincer!***

*Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:*
*http://rhydypennau.ceredigion.sch.uk*
*@YGRhydypennau-dilynwch ni ar X.*




Beau-Enillydd Poburdd


Mollie-enillydd Cogurdd




Plant Bl 6 a'u llusernnau


Goleuo Coeden Nadolig y pentref.



Diwrnod Sanau Od ym Mlwyddyn 1


Prynu a gwerthu yn ystod diwrnod Plant Mewn Angen


Plant blwyddyn 5 yn Oriel MoMA, Machynlleth


Blwyddyn 6 yn cyflwyno neges Diolchgarwch



Aelodau tîm pêl rwyd cymysg yr ysgol.

# Tasg y Tincer

Diolch i'r tri am eich gwaith lliwio hyfryd – Elsi Wynn, Penrhyn-coch; **Anest Emlyn**, Penrhyn-coch ac Ernest Pugh, Y Borth. Gwych! Dy lun di, Anest, ddaeth allan o het y corrach Nadolig y tro hwn.


Anest

Llongyfarchiadau!
Mae'n siŵr eich bod yn edrych ymlaen at y Nadolig, a chael gwyliau. Mae wedi bod yn fis prysur, a sawl cyngerdd a sioe yn eich ysgol a'ch pentre. Dwi wrth fy modd yn edrych ar y goleuadau sy'n disgleirio ar y goeden Nadolig. Dwi hefyd yn hoff iawn o olau cannwyll. Bydd Iddewon dros y byd yn cynnau canhwyllau ar declyn o'r enw **menorah** yr adeg hon o'r flwyddyn, er mwyn dathlu gŵyl arbennig. Enw'r ŵyl bwysig hon yw **Hanukkah**, ac mae'n dechrau eleni ar 25 Rhagfyr ac yn gorffen ar 2 Ionawr. Fel ein Nadolig ni, mae Iddewon yn rhoi anrhegion i'w gilydd ac yn canu caneuon arbennig – ac yn bwyta pethau blasus!



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn Oed

Y mis hwn, beth am liwio llun y goeden Nadolig hyfryd? Cofiwch fod gwobr wych ar gael! Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn **8 Ionawr.** Ta ta tan toc, a Nadolig llawen i chi i gyd!

ISSN 0963-925X
9 770963 925009
*Rhif 474 | Rhagfyr 2024*